# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA DRWY MICROSOFT TEAMS AR DYDD MERCHER 26 GORFFENNAF AM 1PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phriffyrdd), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai), E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd) ac E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Amgylchedd) R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) a D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr).

Hefyd yn mynychu:

S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd), H. Jones (Rheolwr Strategaeth a Gweithrediadau Gwastraff), L. Morgan (Rheolwr Trwyddedu), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg) a C. Millington (Gweithiwr Addysg Gymunedol Ardal).

### RECORDIO A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio ar gyfer trafodaethau yn ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i weld..

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. COFNODION – 12 GORFFENNAF 2023

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd i'r Cabinet Flaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd hyd at 18 Hydref 2023.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd nodi'r Flaenraglen Waith. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

## 5. CYFLEOEDD DYDD

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ynghylch y Cynllun Gweithredu i ymgorffori'r model cyfleoedd dydd a nodwyd gan Hugh Irwin Associates (HICO) a gyflwynwyd i Bwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 11 Gorffennaf 2023.

Nododd y Cabinet fod sawl awdurdod lleol gan gynnwys Caerffili wedi ailagor eu darpariaeth Gwasanaethau Dydd cyn gynted ag y cafodd cyfyngiadau COVID 19 eu codi. Fodd bynnag, symudodd rhai Awdurdodau Lleol i fodiwl cwbl gymunedol. Cafwyd adroddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys y ffyrdd mae awdurdodau lleol gwahanol ledled Cymru yn darparu eu gwasanaeth cyfleoedd dydd. Mae'n nodi mai'r modiwl sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad yw'r modiwl sy'n cael ei weld fel yr 'arfer gorau' ac sy'n cael ei ddilyn bellach gan fwyafrif yr Awdurdodau Lleol.

Mae'r swydd Taliad Uniongyrchol yn swydd ranbarthol, a bydd y cyllid yn cael ei rannu rhwng y pum Awdurdod Lleol ac yn cael ei gymryd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Rhagwelir y bydd y swydd hon yn gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran dilyniant wrth safoni'r arfer ar draws yr Awdurdodau Lleol.

Gofynnwyd a oedd pob plaid wleidyddol o fewn Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cefnogi'r argymhellion. Heblaw am un Aelod a wnaeth ymatal, nodwyd fod yr holl Aelodau eraill a oedd yn bresennol yn cefnogi'r holl argymhellion yn adroddiad y Swyddog yn llwyr.

Roedd y Cabinet yn falch iawn o nodi y bu llawer iawn o adborth cadarnhaol mewn perthynas â nifer o brosiectau parhaus ynghyd ag adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a oedd â phryderon i ddechrau ynghylch sut y byddai'r ffordd newydd o ddarparu gwasanaethau yn gweithio, ond wedi bod yn falch gyda'r canlyniadau.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd, esboniodd y Swyddog bod angen i bob gwirfoddolwr ymgymryd â hyfforddiant diogelu a chael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn iddyn nhw allu dechrau eu rôl fel gwirfoddolwr.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch sut y byddai'r prosiect 'Pontio'r Bwlch' yn diwallu anghenion gofalwyr di-dâl. Dywedodd y Swyddog wrth y Cabinet fod Gogledd Cymru wedi bod yn gweithredu'r prosiect hwn yn llwyddiannus am y deng mlynedd diwethaf a'u bod nhw'n cynorthwyo'r gwaith o'i weithredu. Hyd yma, bu sawl diwrnod agored wedi'u cyfeirio at weithwyr cymdeithasol a darparwyr o'r pum Awdurdod Lleol. Mae catalog yn cael ei ddatblygu a fydd yn amlinellu'r holl wahanol wasanaethau a ddarperir, bydd swm o arian yn cael ei ddyrannu i bob

unigolyn a fydd yn eu galluogi i sicrhau gwasanaeth pan fo angen. Ei nod yw rhoi llawer mwy o reolaeth a hyblygrwydd i'r gofalwyr o ran sut maen nhw'n cael eu seibiant.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a drwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, y dylid:-

1. Cael sylwadau gan y Cabinet ynglŷn â'r cynllun gweithredu.

2. Cymeradwyo ymestyn awr graidd y ganolfan ddydd yn Brooklands o 9.30am i 3.30pm er mwyn galluogi unigolion i gael eu canlyniadau. Sgîl-gynnyrch hynny fydd seibiant i rai teuluoedd.

3. Cymeradwyo'r dehongliad darluniadol amgen o'r model ar gyfer cyfleoedd dydd.

## 6. GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG O RAN TERFYNAU CYFLYMDER 2023 – CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi'i ystyried gan Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 19 Gorffennaf 2023.

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i weithredu Gorchymyn Rheoleiddio Traffig o ran Terfynau Cyflymder Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2023 fel y'i diwygiwyd.

Nododd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi pasio deddfwriaeth newydd ym mis Gorffennaf 2022 a oedd yn newid y terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru o 30mya i 20mya.

Cynigiodd y Cyngor gadw terfynau cyflymder 30mya ar nifer o ffyrdd ac, yn ogystal, cynigiwyd newid y terfynau cyflymder presennol i 40mya mewn pedwar lleoliad er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd.

Eglurodd y Swyddog mai ychydig iawn o reolaeth sydd gan y Cyngor dros y ddeddfwriaeth hon ar wahân i gyflwyno achos dros eithriadau i'r cyfyngiad 20mya, fel y mae wedi'i wneud yn yr adroddiad. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i allu cyfiawnhau'r eithriadau hyn. Mae swyddogion wedi edrych ar ystadegau damweiniau ac wedi cynnal arolygon camera yn yr ardaloedd y ceisiwyd yr eithriadau. Mae gwaith hefyd wedi'i wneud i ganfod y defnydd gan gerddwyr a beicwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd cyllid ar gael ar gyfer 2024/25 i adolygu meysydd sy'n peri pryder lle mae angen cynyddu'r terfynau cyflymder. Yn dilyn gweithredu'r cyfyngiad cyflymder 20mya, bydd y Cyngor yn cynnal asesiad am gyfnod o chwe mis i nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Y gobaith yn y dyfodol yw bod y cyfyngiadau 20mya yn hybu rhagor o feicwyr ar y ffyrdd gan y bydd yn eu diogelu nhw ymhellach.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a drwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, y dylid:-

1. Cymeradwyo cyflwyno Gorchymyn Rheoleiddio Traffig o ran Terfynau Cyflymder Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2023, fel y'i diwygiwyd.

2. Cymeradwyo arwyddion a marciau ffordd ychwanegol fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 7. TRYWYDD AR GYFER LLYWIO EIN STRATEGAETH ADNODDAU A GWASTRAFF

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Cyd-bwyllgor Craffu ar 28 Mehefin 2023.

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar Drywydd drafft y Cyngor sy'n nodi egwyddorion strategaeth gwastraff newydd. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth i'r ymyriadau uniongyrchol arfaethedig i wella perfformiadau ailgylchu yng Nghaerffili ac i nodi amserlen a cherrig milltir cysylltiedig ar gyfer ymgysylltu ag Aelodau a Phwyllgor Craffu Tai a'r Amgylchedd wrth ddatblygu Strategaeth Adnoddau a Gwastraff y Cyngor.

Nodwyd bod Swyddogion yn bwriadu cyflwyno'r strategaeth gwastraff derfynol i gyfarfodydd y pwyllgor craffu a'r Cabinet yn y dyfodol yn dilyn cyfnod yr hydref, lle gofynnir am gymeradwyaeth i lansio'r broses ymgynghori helaeth sy'n dechrau yn gynnar yn 2024, ac wedi hynny bydd y strategaeth yn cael ei chwblhau a'i chymeradwyo fel polisi'r Cyngor.

Yn dilyn ymholiad a godwyd, dywedodd y swyddog wrth y Cabinet mai ychydig iawn o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, sy'n deillio'n gyffredinol o safleoedd llosgi Viridor, lle na ellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw beth arall. Defnyddir y rhan fwyaf o'r lludw ar waelod y llosgydd ar gyfer cynhyrchion fel blociau concrit a chynhyrchion sment eraill.

Nodwyd bod trafodaethau maith wedi'u cynnal gan y Pwyllgor Craffu ynghylch y system dreial ar gyfer trefnu amser yn Nhrehir a gofynnodd y Pwyllgor Craffu i'r Cabinet ystyried diwygiad sy'n nodi y dylid cytuno ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn hytrach na'i ystyried a bod y treial yn Nhrehir yn cael ei ddileu. Cytunodd y Cabinet ar y gwelliant hwn. Fodd bynnag, awgrymodd yr Arweinydd y dylai'r grŵp hwn fod yn Weithgor yn hytrach na Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan ei bod yn broses barhaus. Cynigiwyd ac eiliwyd y gwelliant i'r argymhelliad.

Nodwyd hefyd bod y Pwyllgor Craffu wedi gofyn am gael gwared ar y bagiau bin o'r enillion cynnar y cyfeirir atyn nhw yn y trywydd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn argymell yn gryf bod leininau cadis yn cael eu defnyddio a'u cyflenwi i drigolion, a bod pob awdurdod lleol arall yng Nghymru yn eu darparu a'u hariannu. Rhagwelir y bydd y defnydd o'r leininau yn cynyddu faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a drwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo yn amodol ar ddiwygio argymhelliad 3.2 i: 'Cymeradwyo'r ymyriadau cynnar arfaethedig (ac eithrio'r system dreial ar gyfer trefnu amser), sydd am gynyddu perfformiad ailgylchu presennol yn ôl y disgwyl, ynghyd â chymeradwyo sefydlu cronfa benodol wrth gefn o £2.347m wedi'i chyllido gan arian cyfalaf wrth gefn sydd heb ei glustnodi'; a diwygio argymhelliad 3.3 i: 'Gofyn i'r Cyd-bwyllgor Craffu gytuno i sefydlu Gweithgor i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Trywydd drafft a'r Strategaeth gysylltiedig wedi hynny'

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog a'r cyfarfod, y dylid:-

1. Cymeradwyo egwyddorion y Trywydd drafft.

2. Cymeradwyo'r ymyriadau cynnar arfaethedig (ac eithrio'r system dreial ar gyfer trefnu amser), sydd am gynyddu perfformiad ailgylchu presennol yn ôl y disgwyl, ynghyd â chymeradwyo sefydlu cronfa benodol wrth gefn o £2.347m

wedi'i chyllido gan arian cyfalaf wrth gefn sydd heb ei glustnodi.

3. Gofyn i'r Cyd-bwyllgor Craffu gytuno i sefydlu Gweithgor i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Trywydd drafft a'r Strategaeth gysylltiedig wedi hynny.

## 8. COVID-19 - FFRAMWAITH ADFER ECONOMAIDD, ADRODDIAD MONITRO

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio ar 18 Gorffennaf 2023.

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar ein fframwaith adfer economaidd cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet. Mae'r fframwaith adfer yn cynnwys tri cham gwahanol sef y cyfnodau ailgychwyn, adfywio ac adnewyddu.

Ffocws yr adroddiad oedd y cyfnodau adfywio ac adnewyddu sy'n dilyn ymateb cychwynnol 'dan arweiniad y Llywodraeth' (y cyfnod ailgychwyn) a roddodd gymorth ariannol a chymorth i gyflogwyr yn fuan mewn ymateb i'r pandemig.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch sut y bydd y 'Prosiect Lluosi' yn cynyddu sgiliau. Eglurodd y Swyddog fod y prosiect yn rhaglen a ariennir gan y llywodraeth trwy'r Gronfa Ffyniant Bro. Nod y rhaglen yw gwella sgiliau rhifedd ymarferol trigolion Caerffili i'w cynorthwyo i ddod o hyd i waith cyflogedig. I fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen hon rhaid i chi fod yn byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, yn hŷn na 19 oed a chael cymhwyster mewn Mathemateg nad yw'n uwch na lefel 2.

Dywedodd y Swyddog wrth y Cabinet y bydd rhai enghreifftiau o gyrsiau a ddarperir trwy gyfrwng gwaith 'DIY' neu goginio. Mae'r Cyngor hefyd wedi cysylltu â'r Canolfannau Gwaith i gyflwyno ystod o gyrsiau a fydd yn benodol i swyddi, megis adeiladu, harddwch a lletygarwch ac mae hefyd wedi cysylltu â grwpiau gwirfoddoli a fydd yn targedu hyfforddiant ar gyfer trysoryddion grŵp.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi bod dros 100 o eiddo gwag yn cael eu defnyddio eto oherwydd gwaith tîm eiddo gwag penodol y Cyngor. Gofynnodd y Cabinet am eglurhad ar sut mae'r tîm wedi helpu sicrhau bod yr eiddo gwag yng nghanol y dref yn cael eu defnyddio eto. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr wrth y Cabinet fod nifer o lwybrau wedi'u cymryd i nodi'r eiddo, megis pobl yn cael gwybod am eiddo sydd wedi mynd yn wag gan aelodau o'u cymunedau, adrannau mewnol yn cyfathrebu â'i gilydd, gyda'r adran Dai a'r adran Adfywio yn ffurfio perthnasoedd allweddol.

Mae'r Cyngor nawr yn edrych ar gyfleoedd ar gyfer eiddo deuddiben. Lle mae eiddo wedi bod yn fasnachol yn unig yn hanesyddol, a oes posibilrwydd iddo ddod yn eiddo preswyl a masnachol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a drwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, cydnabu'r Cabinet y cynnydd a wnaed yn unol â'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer adfer economaidd.

## 9. TALIADAU TRWYDDEDU DELWYR METEL SGRAP, BRIDWYR CŴN, A THRWYDDEDU GWEITHGAREDDAU SY'N YMWNEUD AG ANIFEILIAID 2023/24 A PHENNU FFIOEDD YN Y DYFODOL

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet bennu'r ffioedd a godir ar gyfer Trwyddedau Delwyr Metel Sgrap, Trwyddedau Bridwyr Cŵn a thrwyddedau ar gyfer

safleoedd/gweithgareddau a gwmpesir gan reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 ar gyfer 2023/24. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer dirprwyo a gosod y ffioedd uchod yn y dyfodol, sy'n dod o dan y swyddogaeth weithredol i'r Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol.

Nododd y Cabinet fod unrhyw gwynion didrwydded ynglŷn â bridio cŵn yn cael eu cymryd o ddifrif a bod Safonau Masnach yn ymchwilio iddyn nhw. Fodd bynnag, mae achosion o fridwyr cŵn didrwydded yn gymhleth gan fod trothwy i faint o doreidiau'r flwyddyn a ganiateir cyn bod angen trwydded. Hefyd, bydd bridwyr anghyfreithlon yn defnyddio gwahanol gyfeiriadau ac aelodau o'u rhwydwaith i werthu'r cŵn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a drwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau yn adroddiad y Swyddog, y dylid:-

1. Cymeradwyo'r strwythur ffioedd a nodir ym mharagraffau 5.4 i 5.6 yr adroddiad, a'i weithredu o 1.8.2023.

2. Cymeradwyo dirprwyo trefniadau gosod ffioedd yn y dyfodol ar gyfer y mathau o drwyddedau sy'n dod o dan y swyddogaeth weithredol i'r Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol.

## 10. ALLDRO REFENIW DROS DRO AR GYFER 2022/23

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn rhoi manylion i'r Cabinet am alldro dros dro'r gyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 cyn i Archwilio Cymru gwblhau archwiliad allanol blynyddol o'r cyfrifon.

Gofynnwyd hefyd am gymeradwyaeth y Cabinet i gynigion penodol ar gyfer defnyddio Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau Defnyddiadwy Cyffredinol.

Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gynigion ar gyfer defnyddio arian dros ben o'r Gronfa Gyffredinol cyn i'r Cyngor ei ystyried.

Nododd y Cabinet yr heriau ariannol sylweddol wrth symud ymlaen, gyda'r lefelau chwyddiant digynsail a'r rhagolygon economaidd presennol yn arwain at ofyniad posibl i arbed £48.335m ar gyfer y cyfnod dwy flynedd rhwng 2024/25 a 2025/26. Er bod y gyllideb ar gyfer 2022/23 wedi'i rheoli'n dda, mae maint yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn golygu y bydd angen dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau a bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ein Rhaglenni Buddsoddi Trawsnewid a Llunio Lleoedd. Nodwyd y bydd angen datblygu'r newidiadau gofynnol ar unwaith ac y bydd angen gwneud penderfyniadau allweddol yn gynnar i sicrhau y gellir cyflawni'r gofyniad a ragwelir o ran arbedion ar gyfer 2024/25 a 2025/26.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a drwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, y dylid:-

1. Nodi sefyllfa'r alldro cyllideb refeniw dros dro ar gyfer 2022/23.

2. Cymeradwyo'r defnydd arfaethedig o Gronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau Defnyddiadwy Cyffredinol gwerth cyfanswm o £1.148m fel y nodir yn adran 5.10 yr adroddiad.

3. Cymeradwyo'r defnydd arfaethedig o arian dros ben o'r Gronfa Gyffredinol gwerth cyfanswm o £3.455m fel y manylir yn adran 5.11 o'r adroddiad, cyn i'r Cyngor eu hystyried ar 27 Medi 2023.

4. Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cyngor gadw balans y Gronfa Gyffredinol ar £15.166m.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.15pm.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 20 Medi 2023.

________________________

CADEIRYDD